

# SAMPLU

# CWESTIWN YMCHWIL:
## YDY MYFYRWYR PRIFYSGOL YN YSTYRIED EU HUNAIN YN FWY CLYFAR NA'U CYFOEDION?

Y boblogaeth darged yw'r 10,000 o fyfyrwyr israddedig yn fy mhrifysgol i.

Rwy'n recriwtio 200 o gyfranogwyr.

Maen nhw'n astudio yn y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Brydeinig, gwrywaidd, 18–20 mlwydd oed ac o gefndir economaidd-gymdeithasol uchel.

Dwi'n rhoi prawf mathemateg iddyn nhw.

Yna, dwi'n gofyn iddyn nhw raddio pa mor dda maen nhw'n meddwl maen nhw wedi perfformio.

Mae'r canlyniadau'n dangos bod y rhai sy'n cymryd rhan ar gyfartaledd yn credu eu bod yn fwy clyfar na 66% o'r boblogaeth.

**Alla i ddod i'r casgliad bod y rhan fwyaf o bobl yn credu eu bod nhw'n fwy clyfar na'u cyfoedion?**

BETH YW SAMPL?
PAM DEFNYDDIO SAMPL?

A DDYLAI'R SAMPL FOD YN GYNRYCHIOLIADOL BOB TRO?





# TECHNEGAU SAMPLU AR HAP A DI-HAP

Flick (2014)

# SAMPL CYFLEUS

Cyfyngiadau:
Nid yw'n cynhyrchu sampl gynrychioliadol o'r boblogaeth a gall hyn ystumio'r canlyniadau. Ni ellir cyffredinoli canfyddiadau i'r boblogaeth ehangach.

**Enghraifft:**

Dewiswch grŵp o bobl sydd fwyaf tebygol o ddarparu gwybodaeth a fydd yn ateb eich cwestiwn ymchwil yn fwriadol (e.e. athrawon o'ch ysgol leoliad yr ydych yn gwybod eu bod yn defnyddio strategaeth benodol)

**Budd:**

Mae gennych gyfranogwyr sy'n debygol o roi'r wybodaeth yr ydych am ei chael i chi



# SAMPL SYML AR HAP

**Enghraifft:**

Neilltuo rhif i bob un o'r 100 myfyriwr. Yna, defnyddiwch generadur rhif ar hap i ddewis 10 rhif ar hap a defnyddio'r myfyrwyr cyfatebol fel aelodau yn y sampl.

**Budd:**

Mae samplau ar hap syml fel arfer yn gynrychioliadol o'r boblogaeth mae gennym ddiddordeb ynddi gan fod gan bob aelod siawns gyfartal o gael eu cynnwys yn y sampl.



# SAMPL AR HAP SYSTEMATIG

**Enghraifft:**

Creu rhestr yn nhrefn yr wyddor yn seiliedig ar gyfenw eich holl fyfyrwyr, dewis man cychwyn ar hap, a dewis pob 3ydd digybl i fod yn y sampl.

**Budd:**

Mae samplau ar hap systematig fel arfer yn cynrychioli'r boblogaeth mae gennym ddiddordeb ynddi gan fod gan bob aelod siawns gyfartal o gael eu cynnwys yn y sampl.



# SAMPL AR HAP WEDI'I HAENU

**Enghraifft:**

Rhannwch bob myfyriwr yn ôl eu grŵp blwyddyn – Blwyddyn 5, Blwyddyn 7, Blwyddyn 9 a Blwyddyn 11. Dewiswch 25 o fyfyrwyr ar hap o bob gradd i fod yn y sampl.

**Budd:**

Mae samplau ar hap wedi'u haenu yn sicrhau bod nifer cyfartal o fyfyrwyr o bob grŵp blwyddyn yn cael eu cynnwys yn y sampl.



# LLYFRYDDIAETH


Brace, I. (2018) *Questionnaire Design* (4th edition). London: Kogan Page.

Cohen, L., Manion, L. & Morrison, K. (2018) *Research Methods in Education* (8th edition). Oxford: Routledge.

Creswell, J.W. (2012) *Educational research: Planning, conducting, and evaluating quantitative and qualitative research* (4th edition). Boston: Pearson.

Dikko, M. (2016) Establishing Construct Validity and Reliability: Pilot Testing of a Qualitative Interview for Research in Takaful. *The Qualitative Report*, *21*(3), 521-528.

Flick, U. (2014) *An Introduction to Qualitative Research* (5th edition). London: Sage Publications.

Kvale, S. (2007) *Doing Interviews*. Sage Publications, Thousand Oaks.